**<u>Y bocs</u>**

Hen focs Kit Kat

Darlun o beth a gawn yn y pennill cyntaf?

ar stepan drws

tu allan i Kwik  Save

a chwilt wedi rhwygo

Tŷ pwy ydi hwn?

Mae o'n edrych trwy ei falaclafa du.

Mae o'n gweld

Pa brofiadau mae'r person digartref yn eu cael?

olwynion troli llawn bwyd.

Mae o'n clywed

punnoedd yn tincian

mewn pocedi sy'n pasio.

Mae o'n ogleuo

chips neu gyrri

twrci a bara ffresh

Pasio mae'r

Sut ddarlun a gawn o gymdeithas?

bobl dew sy wedi bwyta gormod

a'r bobl grand.

"Dim ond bocs sydd gen i..."     Pam dweud y geiriau yma?

Geiriau sbeitlyd yn bownsio ar fy nghlustiau ac yn fy nghalon

dim ond am fy mod i'n

byw mewn bocs.     Sut mae'r person digartref yn teimlo?

Rosie Haywood

| **Enw'r gerdd** | **Tai Unnos** | **Y Bocs** |
| --- | --- | --- |
| Mesur y gerdd? | | |
| Cynnwys | | |
| Arddull | | |
| Neges/ Beth mae'r bardd yn ei ddweud wrthym ni? | | |

| | | |
|---|---|---|
| Teimladau'r bardd? | | |

Haen Uwch

Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.

***Yn y cerddi, mae'r bardd yn rhoi darlun o ddigartrefedd.***

**Cymharwch** y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- Cynnwys a neges y cerddi
- Sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesur ac ati)
- Eich ymateb personol i'r cerddi

Wrth ateb, **cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau

(40)

## Haen Uwch - Dyma'r Meini Prawf ar gyfer ateb y cwestiwn arholiad

| | |
|---|---|
| 31-40 | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dreiddgar addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar<br>• Dangos ymateb personol treiddgar<br>• Defnyddio dyfyniadau yn effeithiol<br>• Cymharu testunau'n fedrus<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *Gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| 21-30 | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dda addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda<br>• Dangos ymateb personol da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• Cymharu testunau'n ystyrlon<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *Gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| 11-20 | • Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos ymateb personol eithaf da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>• Cymharu testunau'n eithaf da<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *Gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| 0-10 | • Dangos peth dealltwriaeth am gynnwys a neges/thema<br>• Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol<br>• Ymgais i ymateb yn bersonol<br>• Defnyddio ambell ddyfyniad<br>• Ymgais i gymharu testunau<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *Gafael anghyson ar sillafu atalnodi a gramadeg* |

**Haen Sylfaenol**

Darllenwch y ddwy gerdd ganlynol yn ofalus.

**Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o ddigartrefedd i ni.**

Ysgrifennwch am y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol.

Dylech wneud hyn drwy:

- Ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun er enghraifft
  - Pa fath o ddarlun o ddigartrefedd mae'r ddau fardd yn ei roi i ni?
  - Beth mae'r cerddi'n ei ddweud amdanom ni fel pobl?
  - Ydy bywyd y ddinas wedi newid o gwbl dros y blynyddoedd?
- Edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am o leiaf bedair nodwedd arddull/mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- Nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.

(40)

**Haen Sylfaenol - Dyma'r Meini Prawf ar gyfer ateb y cwestiwn arholiad.**

| | |
|---|---|
| 31-40 | • Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos ymateb personol eithaf da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>• Cymharu testunau'n eithaf da<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *Arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| 21-30 | • Dangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Ymgais i ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos peth ymateb personol<br>• Defnyddio dyfyniadau addas<br>• Ymgais i gymharu testunau<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *Gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| 11-20 | • Ymgais i ddangos dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Ymgais i drafod addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Ymgais i ymateb yn bersonol<br>• Defnyddio ambell ddyfyniad<br>• Peth ymgais i gymharu testunau<br>• *Dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>• *Peth gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir* |
| 0-10 | • Ymgais i ddangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Cyfeirio at arddull / iaith i greu awyrgylch<br>• Dechrau ymateb yn bersonol<br>• Ymgais i ddefnyddio ambell ddyfyniad<br>• *Ymgais at ddilyniant*<br>• *Gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

Darllenwch y darn yma o ateb enghreifftiol sy'n cymharu cynnwys *Tai Unnos* ac *Y bocs.*

*Yn fy marn i mae'r ddwy gerdd yn debyg am eu bod yn sôn am ddigartrefedd. Mae'r gerdd Tai Unnos yn dechrau drwy sôn am arferiad y werin yng Nghymru o godi tai dros nos yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Yn ystod y cyfnod yma roedd hi'n draddodiad i'r werin gasglu cerrig a deunydd gwastraff er mwyn codi tai rhwng machlud a gwawrio a chynnau tân a gadael i fwg ddod drwy'r simne er mwyn perchnogi'r tir a'r tŷ. Yna mae'n mynd yn ei flaen i sôn am y ganrif hon a'r bobl digartref sy'n codi tai o gardbord a sbwriel yn y dinasoedd. Maen nhw'n cysgodi mewn lleoedd megis meysydd parcio ac o dan bontydd. Mae Iwan Llwyd yn gweld tebygrwydd rhwng sefyllfa'r gorffennol a'r presennol ac yn gweld digartrefedd yn broblem sy'n dal i fodoli.*

*Yn debyg mae'r gerdd Y bocs hefyd yn sôn am ddigartrefedd ond yn wahanol mae'n canolbwyntio ar berson digartref yn yr oes yma a'r modd y mae eraill yn ei drin. Mae'r gerdd yn cyfeirio at berson digartref sy'n byw mewn hen focs y tu allan i archfarchnad. Yna mae'n sôn am y bobl grand sy'n ei basio ac yn ei anwybyddu.*

(i) Ydy'r disgybl yn defnyddio geiriau cymharu yn ei ateb? Tanlinellwch y geiriau sy'n cymharu o fewn yr ateb.

(ii) Oes yna wybodaeth am gynnwys y ddwy gerdd? Aroleuwch y wybodaeth.

(iii) Beth yn eich barn chi sydd angen ei wneud i wella'r ateb?

______________________________________________

Ailddarllenwch yr ateb yma.

*Yn fy marn i mae'r ddwy gerdd yn debyg am eu bod yn sôn am ddigartrefedd. Mae'r gerdd Tai Unnos yn dechrau drwy sôn am arferiad y werin yng Nghymru o godi tai dros nos yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Yn ystod y cyfnod yma roedd hi'n draddodiad i'r werin gasglu cerrig a deunydd*

*gwastraff oedd yn "sbwriel oes yr iâ" er mwyn codi tai "rhwng gwyll a gwawr"a chynnau tân " cyn i'r landlord ei dynnu i lawr". Bydden nhw'n defnyddio " sbarion a shafins" er mwyn codi "bwthyn clyd yn nhro'r afon". Yna mae'n mynd yn ei flaen i sôn am y ganrif hon a'r bobl digartref sy'n codi tai o gardbord a sbwriel yn y dinasoedd. Maen nhw'n cysgodi " ar lannau traffyrdd y dinasoedd llwydion" ac " yng nghesail cocncrid swyddfeydd gweigion". Mae'r bardd yn cloi drwy egluro bod y bobl digartref yma sy'n "hawlio darn o dir â bocsys cardbord blêr " yn debyg iawn i Gymry'r ddeunawfed ganrif oedd yn wynebu'r her o orfod codi cartref mewn sefyllfa galed.*

Mae'r disgybl wedi llwyddo i drafod cynnwys y gerdd a dyfynnu'n naturiol.

Ewch ati i wella'r ateb sy'n trafod cynnwys y gerdd Y bocs isod: